Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried:** Bil Bwyd (Cymru)

Chwefror 2023

Ar 12 Rhagfyr 2022, cyflwynwyd y Bil Bwyd (Cymru) yn y Senedd.

Ar 29 Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 13 Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 28 Ebrill 2023.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 30 Mehefin 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar 14 Chwefror 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar estyniadau i'r terfynau amser adrodd ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil hyd at 12

Mai 2023 ac y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 14 Gorffennaf 2023.